## Canlyniadau arolygon pysgota trydanol

Pysgota trydanol yw un o'r arfau yr ydym ni wedi'u mabwysiadu i fesur y gwelliannau sydd wedi'u gwneud i'n hafon. Mae pysgota trydanol yn golygu defnyddio maes trydanol, wedi'i greu gan anod a chatod, a gaiff ei reoli gan aelod o staff hynod hyfforddedig. Pan gaiff ei actifadu mewn dŵr, mae'n llonyddu'r pysgod am ennyd fel y gellir eu dal mewn rhwyd er mwyn eu cyfrif a'u mesur ac er mwyn adnabod rhywogaethau.

Llwyddasom i gwblhau'r rhan fwyaf o'n rhaglen pysgota trydanol yn llwyddiannus yn 2023, er gwaethaf amodau anodd yn yr afon. Dyma grynodeb byr o rai llwyddiannau a siomedigaethau cymharol a gafwyd hyd yn hyn. Mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â salmonidau mudol. Dylid nodi ein bod hefyd yn cofnodi rhywogaethau Ardal Cadwraeth Arbennig eraill megis y penlletwad (*Cottus gobio*) a llysywen bendoll y nant (*Lampetra planeri*):

**Alwen Uchaf**: Mae pysgota trydanol wedi dangos y gall eogiaid llawndwf esgyn a silio o fewn 50 metr i'r cwlfert. Roedd canlyniad y pysgota am frithyllod uwchben y cwlfert yn wael/cymedrol gan mai dim ond amser byr a gawsant i ddefnyddio'r ardal silio well wedi i raen gael ei gyflwyno yno yn hydref 2022. Bydd y newidiadau a wnaed i'r cwlfert yn 2023 yn caniatáu i eogiaid silio yn yr ardal hon, a fydd yn fanteisiol iawn.

**Brenig Uchaf**: Roedd canlyniad y pysgota cyntaf yn afon Brenig yn 2021 wedi'n synnu gan fod niferoedd y brithyllod a'r eogiaid yn gymedrol. Mae hyn wedi parhau yn dilyn ymyriadau sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Mae cyflwyno clogfeini a graean mewn dwy ardal wedi cynyddu'r arwynebedd sydd ar gael ar gyfer pysgod llawndwf sy'n silio a chynefinoedd pysgod ifanc, ac rydym yn disgwyl i'r niferoedd yn yr ardal gynyddu yn y dyfodol.

**Tryweryn**: Mae canlyniadau 2023 wedi gwella'n sylweddol o'u cymharu â chanlyniadau 2022, a oedd ychydig yn siomedig er gwaethaf y gwaith yn 2022 i wella'r ardal silio sydd ar gael. Roedd canlyniadau 2023 yn cynnwys un safle rhagorol a sicrhaodd radd A, gan godi o radd E yn 2022.

**Prif Afon**: Cynhaliwyd sesiynau pysgota trydanol yn 2022 a 2023 mewn dau leoliad ar y Dyfrdwy lle'r ydym wedi cyflwyno clogfeini, ond yn anffodus mae llifau uchel gydol 2023 wedi atal pysgota ar ôl yr ymyriad hwn. Y gobaith yw y gellir pysgota yn y safleoedd hyn yn 2024 i ymchwilio i'r newidiadau yn y safleoedd.

**Ceiriog Uchaf**: Mae poblogaethau brithyllod mewn tri safle mawr yn yr afon uchaf yn ymddangos yn sefydlog ac yn weddol iach wedi ymyrraeth (gradd A i C), ond nid yw eogiaid yn gwneud yn dda (C i E). Gleisiaid sydd yn silio yn afon Ceiriog yn bennaf. Eogiaid yw gleisiaid sydd wedi treulio un gaeaf yn y môr, ac maent yn pwyso oddeutu 3-9 pwys. Mae niferoedd gleisiaid ar draws eu gwasgariad yn Ewrop wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi gweld gostyngiad tebyg yn afon Ceiriog. Er gwaethaf gwelliannau megis ffensys, cyflwyno clogfeini, ac ati, mae'r canlyniadau gwael hyn yn debygol o barhau hyd nes y bydd niferoedd yr eogiaid llawndwf (gleisiaid) yn gwella ac y bydd y prosiect yn mynd i'r afael ag ymyriadau ymhellach i lawr yr afon (megis coredau Bryncunallt a'r Waun).

**Ceiriog Isaf**: Ym Mryncunallt, mae ymyriadau mawr yn yr afon, sydd wedi cynnwys cyflwyno clogfeini, a chynlluniau ffensio i gyfyngu da byw, wedi sefydlogi niferoedd yr eogiaid ifanc (graddau B i D) ac wedi cynnal cyflenwadau llai o frithyllod (C i E). Mae niferoedd y penlletwad yn parhau'n gryf yn y rhan hon o'r afon.

**Is-afon Ceiriog - Nant Gwryd**: Roedd dau rwystr sylweddol i bysgod sy'n mudo yn yr isafon fechan hon ac aethpwyd i'r afael â nhw yn 2022. Bydd y rhain heb os yn cynorthwyo brithyllod

y môr ac eogiaid i deithio i fyny'r afon yn y dyfodol, a gallent godi statws da presennol y brithyllod (gradd B) ymhellach. Ni ddaliwyd unrhyw eog yn yr is-afon gul a serth hon, ond byddwn yn parhau i fonitro yn y dyfodol.

**Nant Morlas**: Mae is-afon arall afon Ceiriog wedi arddangos gwelliant sylweddol ers i ryd goncrit gael ei thynnu o ran isaf yr afon. Yn y safle rheoli, mae'r graddau wedi parhau'n debyg iawn dros y pedair blynedd o bysgota trydanol am eogiaid a brithyllod. Fodd bynnag, mae eogiaid ifanc bellach yn bresennol yn y tri safle uwchlaw'r rhwystr a dynnwyd, sy'n llwyddiant mawr.